# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)08-01 (p4): 17 Ionawr 2008

### Deiseb cyf P-03-060: Ffos y Frân - Gohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r prif ddeisebydd.

### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Adran Gynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Y Cefndir

Mae'r ddeiseb yn gofyn am osod parth diogelwch 500 metr rhwng wyneb gwaith glo brig Ffos y Frân a 'chartrefi, ysgolion ac ysbytai'.

Yn ei gyfarfod 20 Medi 2007 ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a phenderfynwyd cyfeirio'r ddeiseb at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ('y Gweinidog'). Yn ei gyfarfod 22 Tachwedd 2007 ystyriodd y Pwyllgor lythyr oddi wrth y Gweinidog oedd yn dweud y byddai'r Gweinidog yn ystyried y ddeiseb hon.

Rhoddodd swyddog yng Nghangen Penderfyniadau Cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru gopi o'r llythyr yn cynnwys y penderfyniad i'r Cadeirydd. Dyddiad y llythyr oedd 6 Rhagfyr 2007. Mae'r llythyr hwn yn amlinellu penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i beidio â diddymu nac addasu'r caniatâd cynllunio ar gyfer safle Ffos y Frân. Atodir copi o'r llythyr hwn yn Atodiad A.

### Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r ddeiseb a phenderfynu ar unrhyw gamau ymhellach.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2008